

Am rôl Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr



Teitl swydd
Cadeirydd



Tâl
Mae hon yn rôl wirfoddol. Ni fyddwch yn cael cyflog. Ond byddwn yn talu eich treuliau fel costau teithio.



Hyd amser
Mae'r rôl am 2 flynedd. Gallwch gael eich dewis i fod yn Gadeirydd yr Ymddiriedolwyr unwaith eto. Yr hiraf y gallwch fod yn y rôl hon yr 4 blynedd.



I bwy ydych chi'n atebol?
Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Nod y rôl



Arwain a thywys Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i sicrhau bod Anabledd Dysgu Cymru yn cyflawni ei nodau.



Gweithio gydag ymddiriedolwyr i gael pobl o wahanol gefndiroedd, sgiliau a phrofiad ar Fwrdd yr Ymddiriedolwyr.



Meithrin perthynas waith dda gyda'r Prif Swyddog Gweithredol – Zoe Richards.




Gweithio gyda Zoe i gyflawni'r nodau yn ein cynllun strategol.



Gweithio gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i sicrhau bod Anabledd Dysgu Cymru yn cael ei redeg yn iawn.

Pa waith y byddwch chi'n ei wneud



Cefnogi Zoe a'r Rheolwr Adnoddau Dynol a Llywodraethu Jo, gyda'r agenda ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd.



Cadeirio cyfarfodydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr. Gwneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan a dweud eu dweud.



Gwneud yn siŵr bod unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud yn deg.



Gwneud yn siŵr bod gan ymddiriedolwyr y wybodaeth gywir ar yr adeg iawn. Er enghraifft, pethau fel cyfriflenni cyfrif banc, adroddiadau a chynlluniau.



Gwneud yn siŵr bod ymddiriedolwyr yn gweithio i leihau a rheoli unrhyw risgiau i Anabledd Dysgu Cymru.



Rhannu dyletswyddau a gweithio gyda'r holl ymddiriedolwyr. Gwneud y gorau o sgiliau pobl.



Gwneud yn siŵr bod ymddiriedolwyr yn cyflawni eu cyfrifoldebau drwy ddilyn y rheolau y cytunwyd arnynt.



Gwneud yn siŵr bod gan yr ymddiriedolwyr y sgiliau iawn a'u bod nhw'n cael cyfle i ddatblygu sgiliau.



Ceisio datrys unrhyw broblemau neu anghytundebau o fewn Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.



Cadeirio ein Cyfarfod Blynyddol Cyffredinol.



Mynd i gyfarfodydd yr **is-grŵp cyllid** a'r **is-grŵp adnoddau dynol**.



Helpu i reoli'r bobl sy'n gweithio i Anabledd Dysgu Cymru drwy gymryd rhan mewn pethau fel gweithdrefnau disgyblu.

Cefnogi'r Prif Swyddog Gweithredol



Cael goruchwyliaeth gyda Zoe bob mis. Edrych ar sut mae gwaith Zoe yn mynd bob 3 mis. Cadw mewn cysylltiad â Zoe am yr hyn sy'n digwydd yn Anabledd Dysgu Cymru.



Gwneud yn siŵr bod Zoe yn cael cyfle i gael cymorth a hyfforddiant pan fo angen.



Edrych ar y gwaith mae Anabledd Dysgu Cymru yn ei wneud. Cefnogi Zoe pan fo angen.

Cynrychioli Anabledd Dysgu Cymru



Cynrychioli Anabledd Dysgu Cymru mewn digwyddiadau a chyfarfodydd.



Cynrychioli Anabledd Dysgu Cymru mewn cyfarfodydd a digwyddiadau allanol pan fo angen.